# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg**

**Cartref Hen Bobl Hafan Deg**
**Teras y Deml**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 7BJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psinationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Diben yr arolygiad â phwyslais penodol hwn yw adolygu'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth agored ynghylch yr amgylchedd mewnol.

Mae gan y darparwr gynllun gwella ac mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth adnewyddu'r amgylchedd. Gohiriwyd y cynnydd o ganlyniad i argaeledd deunyddiau a chontractwyr i gwblhau'r gwaith. Mae'r darparwr wedi bod yn onest ag AGC wrth drafod y cynnydd a'r heriau yn ystod cyfarfodydd diweddaru rheolaidd. Bydd yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau'n agored a byddwn yn profi cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn canmol y gwasanaeth ac yn edrych ymlaen at weld y gwaith uwchraddio yn cael ei gwblhau ac at agor yr adran newydd a fydd yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ers i'r cyfyngiadau lacio, maent yn ailddechrau gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd unigolyn wrthym am y gweithgareddau yn y gwasanaeth, ymweld â'r siopau lleol a'r siop trin gwallt, a dywedodd *“we had a brilliant day out last week and we are looking forward to more activities but want to stay safe from the virus*”.  Mae'r gweithwyr gofal yn amyneddgar ac yn deall anghenion unigol y bobl. Dywedodd unigolyn wrthym *“the staff are brilliant here”*. Gall y bobl siarad â'i gilydd ac â'r staff yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y dewisant. Mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn hamddenol.

Mae’r bobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac yn mynegi eu barn am y gwasanaeth. Mae'r bobl yn falch â'r gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau ac yn edrych ymlaen at gam nesaf y gwaith adnewyddu. Mae diddordeb cyffredinol yn y gwaith i ddatblygu'r uned newydd. Mae'r darparwr yn anelu at wella iechyd a llesiant cyffredinol y bobl drwy wella gweddill yr amgylchedd.

Mae gan y bobl lais gan fod y darparwr yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol. Mae'r darparwr yn monitro cynnydd y cynllun adnewyddu yn ystod ei ymweliadau chwarterol ac yn esbonio'r rhesymau dros unrhyw oedi yn glir.

## Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn rhan o ffocws yr arolygiad hwn, ond dengys ein trafodaethau â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Hafan Deg unwaith eto fod y gwasanaeth yn diwallu anghenion iechyd a llesiant y bobl.

Mae'r bobl yn canmol y staff a'r cymorth a gânt; gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar, llawn anogaeth. Mae'r gweithwyr gofal profiadol yn deall anghenion y bobl ac yn mwynhau treulio amser o ansawdd gyda nhw. Dywedodd un o'r gweithwyr wrthym *“the residents are lovely and I love stopping to have a chat with them”.* Mae pawb yn edrych ymlaen at weld y rhaglen adnewyddu yn cael ei chwblhau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi gwneud gwelliannau i'r dodrefn, llawr y cyntedd a phedair ystafell wely ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r gwasanaeth wrthi'n gosod drysau tân a gwaith pren newydd yn dilyn arolygiad gan y Gwasanaeth Tân. Gohiriwyd gwaith adnewyddu pellach o ganlyniad i argaeledd deunyddiau a chontractwyr i ymgymryd â'r gwaith. Mae'r darparwr hefyd yn adnewyddu ardal o'r adeilad a'r tir yn benodol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r bobl yn canmol y gwaith a gwblhawyd eisoes a dywedwyd wrthym *"my room has been decorated, it's great and really lifted my spirits"* ac *"it's exciting and the work will be worth it once it's finished".* Mae'r staff hefyd yn edrych ymlaen at weld y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau a dywedwyd wrthym *"we're getting there and it's a big improvement, especially the flooring"* a *"the building work is going well and it's nice to see it's getting done and will be nice when it's finished".*

Er bod yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau'n agored, mae'r darparwr wedi ein hysbysu am y problemau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r gwaith, sydd y tu allan i'w reolaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oedd arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol hwn. Fodd bynnag, mae trefniadau da ar waith gan y darparwr i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi cynnydd y cynllun adnewyddu ac unrhyw rwystrau. Mae'r darparwr wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag AGC i drafod yr heriau wrth gwblhau'r gwaith adnewyddu.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn canmol yr arweinyddiaeth a dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *"[manager and deputy] are great, couldn't ask for more, so approachable and supportive. The seniors are also a great support to us"*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Y Safle | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/01/2023